

CFfG/2021/ 8fed Cyfarfod

## Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 19:00 ddydd Mawrth 30 Tachwedd 2021 trwy gyfrwng Microsoft Teams.

### Yn bresennol:

Mrs Ustus Jefford

Dirprwy Gadeirydd

Huw Vaughan Thomas

Comisiynydd

Shereen Williams

Ysgrifennydd y Comisiwn

**Amser Dechrau:** 19:00

**Amser Gorffen:** 19:20

## 1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGAN BUDDIANNAU

- 1.1. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

- 2.1. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer Sam Hartley, Tom Jenkins, Neil Park ac Aaron Solis.

## 3. PENODI COMISIYNWYR CYNORTHWYOL A CHADEIRYDD AR GYFER GWRANDAWIADAU CYHOEDDUS

- 3.1. Rhoddwyd diweddariad gan yr Ysgrifennydd am benodiad y Comisiynydd Cynorthwyol sy'n weddill, ac effaith yr oedi parhaus gan Swyddfa'r Cabinet.
- 3.2. **Cytunwyd** y bydd yr Ysgrifennydd yn ysgrifennu'n ffurfiol at Swyddfa'r Cabinet yn gofyn am benderfyniad ysgrifenedig ar y penodiad sy'n weddill er mwyn galluogi'r Comisiwn i baratoi ar gyfer y Gwrandawiadau Cyhoeddus.
- 3.3. **Cytunwyd** y bydd yr Ysgrifennydd yn cadeirio'r gwrandawriad cyhoeddus cyntaf.

## 4. GWRANDAWIADAU CYHOEDDUS A COVID-19

- 4.1. Tynnwyd sylw gan yr Ysgrifennydd at yr heriau iechyd cyhoeddus diweddar mewn perthynas â COVID-19 a'r effaith y gall hyn ei chael ar y Gwrandawiadau Cyhoeddus.
- 4.2. **Cytunwyd** y bydd yr Ysgrifennydd yn monitro'r sefyllfa ac yn ystyried y cyfyngiadau yng Nghymru cyn penderfynu a ddylid gohirio'r Gwrandawiadau Cyhoeddus.